# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 2

GOFYNION CWRICWLWM

*Gofynion cwricwlwm*

### 25 Pŵer i osod gofynion pellach cwricwlwm

(1) Caiff rheoliadau bennu gofynion pellach y mae rhaid i gwricwlwm ar gyfer ysgol a gynhelir gydymffurfio â hwy i'r graddau y mae'n gymwys i ddisgyblion o fewn is-adran (2).

(2) Y disgyblion yw'r rheini sydd wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth 14 oed ynddi, ond sy'n dal i fod o'r oedran ysgol gorfodol.

(3) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, bennu darpariaeth—

(a) y mae rhaid ei gwneud mewn cwricwlwm;

(b) na chaniateir ei gwneud mewn cwricwlwm.

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth drwy gyfeirio at gyrsiau astudio (er enghraifft, er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer isafswm nifer o gyrsiau astudio, neu ar gyfer cyrsiau astudio a bennir yn y rheoliadau).

(5) Yn yr adran hon, ystyr "cwrs astudio" yw cwrs addysg neu hyfforddiant—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 25 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) sy'n arwain at ffurf ar gymhwyster neu set o ffurfiau ar gymhwyster a gymeradwyir o dan Ran 4 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5) neu a ddynodir o dan Ran 5 o'r Ddeddf honno, neu

(b) a ddynodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 34(8) o'r Ddeddf honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 25 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(b), **Atod.**

**I3** A. 25 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(b)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 25 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– s. 25 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(b)
– s. 25 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
– s. 25 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)